



Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

Crynodeb o'r gwelliannau a basiwyd yng Nghyfnod 2

Mae'r papur briffio hwn wedi'i baratoi gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad cyn dadl Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Tachwedd. Mae'r papur yn crynhoi'r newidiadau a wnaed i Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) yn ystod trafodion Cyfnod 2 gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ar 14 a 21 Hydref.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Owain Roberts
yng Ngwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Ebst: (Owain.roberts@cymru.gov.uk)

Members'
Research
Service

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	6
2.	Adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2	6
3.	Dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig	7
4.	Cyfnod 2	8
4.1.	Rhan 1: Statws swyddogol y Gymraeg.....	9
4.2.	Rhan 2: Comisiynydd y Gymraeg	11
4.3.	Rhan 3: Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg.....	16
4.4.	Rhan 4: Safonau.....	18
4.5.	Rhan 5: Gorfodi safonau	25
4.6.	Rhan 6: Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg	27
4.7.	Rhan 7: Tribiwnlys y Gymraeg	28
4.8.	Rhan 9: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cynlluniau Iaith Gymraeg etc.....	29
4.9.	Rhan 10: Atodol.....	30
4.10.	Gwelliannau eraill	31
5.	Cyfnod 3.....	34

Gwybodaeth gysylltiedig

[Mesur Arfaethedig y Gymraeg \(Cymru\)](#)

[Memorandwm Esboniadol Mesur Arfaethedig y Gymraeg \(Cymru\) 2010](#)

[Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, Adroddiad Cyfnod 1 ar Fesur Arfaethedig y Gymraeg \(Cymru\), 22 Gorffennaf 2010](#)

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, *Adroddiad ar Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)*, Gorffennaf 2010

Y Pwyllgor Cyllid, *adroddiad ar Oblygiadau Ariannol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)*, Awst 2010

[Cofnod y Trafodion, Dadl Cyfnod 1 Mesur Arfaethedig y Gymraeg \(Cymru\), 21 Medi 2010](#)

[Hysbysiad o welliannau, 5 Hydref 2010](#)

[Hysbysiad o welliannau, 6 Hydref 2010](#)

[Hysbysiad o welliannau, 7 Hydref 2010](#)

[Hysbysiad o welliannau, 8 Hydref 2010](#)

[Hysbysiad o welliannau, 14 Hydref](#)



[Rhestr o welliannau wedi'u didoli, 14 Hydref 2010](#)

[Rhestr o welliannau wedi'u didoli, 21 Hydref 2010](#)

[Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref 2010](#)

[Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref 2010](#)

Prif bwyntiau'r papur hwn

Cyflwynwyd Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) ("y Mesur arfaethedig") gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, ar 4 Mawrth 2010. Ar ôl hynny, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Mesur arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1.

Cymeradwywyd y Mesur arfaethedig yng Nghyfnod 1 gan y Cynulliad Cenedlaethol yn dilyn dadl ar ei egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Medi 2010. Mae'r papur briffio hwn yn egluro'r newidiadau a wnaed i'r Mesur arfaethedig yn ystod trafodion Cyfnod 2 ar 14 a 21 Hydref gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, cyn cynnal dadl Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Tachwedd.

Bwriad y papur hwn yw paratoi crynodeb o'r gwelliannau i'r Mesur arfaethedig a dderbyniwyd neu a wrthodwyd yn ystod trafodion Cyfnod 2 ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, ynghyd â'r dadleuon a gyflwynwyd mewn perthynas â'r gwelliannau hynny.

Roedd y prif newidiadau i'r Mesur arfaethedig a dderbyniwyd gan y Pwyllgor yng Nghyfnod 2 yn cynnwys:

- Mewnosod datganiad newydd ar statws swyddogol y Gymraeg. **(Gwelliant 5 – Adran 1)**
- Ymestyn cyfnod penodi Comisiynydd y Gymraeg o 5 i 7 mlynedd a chyfyngu'r penodiad hwnnw i un tymor. **(Gwelliannau 66 a 67 – Atodlen 1)**
- Cyflwyno amddiffyniadau ychwanegol i sicrhau annibyniaeth Comisiynydd y Gymraeg o Weinidogion Cymru. **(Gwelliannau 12 a 64 – Adran 15 ac Atodlen 1)**
- Diwygio'r teitl hir ar ddechrau'r Mesur arfaethedig i egluro'i nodau ac amcanion; sef, hybu defnyddio'r Gymraeg a sefydlu Comisiynydd y Gymraeg, gyda'r prif amcan o hybu'r Gymraeg. **(Gwelliant 3 – Teitl hir)**
- Mewnosod adrannau newydd i egluro diben swydd Comisiynydd y Gymraeg, sef hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. **(Gwelliant 6 – Adran newydd)**
- Ymestyn safonau hybu i gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn ogystal â Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol. **(Gwelliannau 77 a 22 – Adran 37 ac Atodlen 6)**
- Hepgor cyflenwyr nwy petrolewm hylifedig rhag bod yn destun rheoliadau safonau a wneir gan Weinidogion Cymru. **(Gwelliannau 123, 124 a 125 – Atodlen 8)**
- Gosod dyletswyddau newydd ar Gomisiynydd y Gymraeg i ymgynghori â'r cyhoedd wrth gynnal ymchwiliadau safonau. **(Gwelliannau 43 a 44 – Adran 61)**
- Mewnosod is-adrannau newydd i sicrhau didueddrwydd Tribiwnlys y Gymraeg ac annibyniaeth llywydd y Tribiwnlys. **(Gwelliannau 56, 57 a 58 – Adrannau 113, 122 a 124)**
- Gosod dyletswyddau newydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu strategaeth iaith Gymraeg i gyd-fynd â chyhoeddi Strategaeth iaith Gymraeg statudol flynyddol Llywodraeth Cymru. **(Gwelliant 60 – Adran newydd)**



- Sefydlu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg i roi cyngor a chyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. (**Gwelliant 61 – Adran newydd**)

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd *Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)* ("y Mesur arfaethedig") gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, ar 4 Mawrth 2010. Ar ôl hynny, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Mesur arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1.

Cymeradwywyd y Mesur arfaethedig yn unfrydol yng Nghyfnod 1 gan y Cynulliad Cenedlaethol yn dilyn dadl ar ei egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Medi 2010. Dechreuodd trafodion Cyfnod 2 ar 22 Medi. Cyflwynwyd cyfanswm o 192 o welliannau (cyflwynwyd 144 ohonynt gan Lywodraeth Cymru). Trafododd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 y gwelliannau, a'u gwaredu, yn ystod ei gyfarfodydd ar 14 Hydref a 21 Hydref.

Mae'r papur briffio hwn yn egluro'r newidiadau a wnaed i'r Mesur arfaethedig yn ystod trafodion Cyfnod 2, cyn cynnal dadl Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Tachwedd.

2. Adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

Cyhoeddodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ei adroddiad Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ar 22 Gorffennaf 2010. Cyflwynodd nifer o argymhellion. Cyhoeddodd y Pwyllgor ddatganiad i'r wasg i gyd-fynd â chyhoeddi'r adroddiad a oedd yn crynhoi'r prif newidiadau yr oedd am eu gweld i'r Mesur arfaethedig yng Nghyfnod 2. Yn siarad ar ran y Pwyllgor, dywedodd Val Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor:

Credwn fod angen cynnwys datganiad cyffredinol yn y Mesur arfaethedig sy'n datgan yn glir mai diben y ddeddfwriaeth yw hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg, yn ogystal â chynnal cefnogaeth ac ewyllys da'r rhai nad ydynt yn siarad yr iaith.¹

Roedd yr argymhellion eraill a gynigiwyd gan y Pwyllgor yn cynnwys:

- datganiad clir yn adran 1 o'r Mesur arfaethedig sy'n datgan mai Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd swyddogol Cymru;
- darpariaeth yn y Mesur arfaethedig sy'n golygu y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei enwebu gan Brif Weinidog Cymru ac yna'n cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol;
- bod y Gweinidog yn adolygu'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig sy'n caniatáu rheolaeth gan Weinidogion dros Gomisiynydd y Gymraeg;
- y dylai un o bwyllgorau'r Cynulliad graffu'n flynyddol ar y gyllideb ar gyfer rheoleiddio a hyrwyddo'r Gymraeg;
- y dylai aelodau'r Panel Cyngori gael eu henwebu gan Weinidogion Cymru ac yna eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol;
- dylai bod dyletswydd i ymgynghori â sefydliadau ar reoliadau sy'n pennu safonau;
- rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg hefyd ymgynghori â'r cyhoedd wrth gynnal ymchwiliad i safonau;

¹ [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Angen gwella Mesur Arfaethedig y Gymraeg er lles pawb yng Nghymru*, 22 Gorffennaf 2010 \[Fel ar 12 Hydref 2010\]](#)

- er mwyn eglurder a chywirdeb, ac yn ychwanegol i bwerau Comisiynydd y Gymraeg, dylid ymdrin ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg mewn deddfwriaeth cysylltiadau hiliol a deddfwriaeth cydraddoldeb sydd eisoes yn bodoli.²

3. Dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig

Cynhaliwyd y ddadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ar 21 Medi 2010. Yn ystod y ddadl honno, cyfeiriodd Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, at yr argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 yn ei adroddiad Cyfnod 1. Amlinellodd y gwelliannau y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno yng Nghyfnod 2.

Wrth sôn am statws swyddogol y Gymraeg, dywedodd y Gweinidog:

Gallaf gadarnhau heddiw fod y Llywodraeth wedi ystyried sut y gellir gwneud datganiad cliriach fyth ynglŷn â statws swyddogol a bydd gwelliant yn cael ei gyflwyno gennym maes o law.³

Dywedodd y Gweinidog hefyd y byddai gwelliannau'n cael eu cyflwyno mewn perthynas ag annibyniaeth Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") a Thribiwnlys y Gymraeg ("y Tribiwnlys"):

Mae annibyniaeth y comisiynydd yn bwysig iawn a bu cryn drafod ar hynny ers cyhoeddi'r Mesur arfaethedig. Felly, byddaf am gyflwyno gwelliannau a fydd yn helpu i gadarnhau ein bwriad i greu comisiynydd annibynnol. Mae'r un peth yn wir o ran annibyniaeth tribiwnlys y Gymraeg a byddaf hefyd, felly, am gyflwyno gwelliannau a fydd yn helpu i gadarnhau ein bwriad i greu tribiwnlys annibynnol.⁴

At hynny, byddai mwy o welliannau'n cael eu cyflwyno i egluro ffocws a natur swyddogaethau'r Comisiynydd:

O ran ffocws gwaith y comisiynydd, byddwn am gryfhau'r rhannau hynny o'r Mesur arfaethedig sy'n ymwneud â swyddogaethau'r comisiynydd i wneud yn sicr mai'r Gymraeg fydd ffocws y gwaith, ac er mwyn gwneud yn siŵr mai bwriad y gwaith rheoleiddio fydd sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd disgwyl, hefyd, i'r comisiynydd adlewyrchu'r ffaith bod gan y Gymraeg statws swyddogol wrth iddo fynd ati i wireddu'r Mesur arfaethedig.⁵

Fel ymateb i argymhellion Cyfnod 1 y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog y byddai gwelliannau'n cael eu cyflwyno i gryfhau dyletswyddau'r Comisiynydd i ymgynghori â rhanddeiliaid cyn cyhoeddi rheoliadau safonau gan Weinidogion Cymru:

Byddwn am gryfhau'r adran sy'n galluogi'r comisiynydd i ymgynghori â'r cyhoedd pan fydd yn ystyried natur a chynnwys y safonau iaith arfaethedig. Yr oedd hynny'n fwriad o'r cychwyn, ond efallai nad yw'n amlwg i bawb yn y ffordd mae'r Mesur arfaethedig wedi'i eirio ar hyn o bryd. Yr wyf hefyd yn ystyried rôl y cyhoedd mewn achosion lle honnir bod safon wedi'i dorri, a lle y ceir apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad gan y comisiynydd o blaid

² [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Angen gwella Mesur Arfaethedig y Gymraeg er lles pawb yng Nghymru, 22 Gorffennaf 2010 \[fel ar 12 Hydref 2010\]](#)

³ [Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2010](#)

⁴ [Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2010](#)

⁵ [Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2010](#)

yr achwynydd.⁶

Fodd bynnag, ni lwyddodd dadleuon y Pwyllgor dros ddileu Rhan 6 o'r Mesur arfaethedig sy'n ymwneud â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, i argyhoeddi'r Gweinidog:

Er imi dderbyn awgrymiadau y dylid dileu'r rhan honno sy'n ymwneud â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, wedi imi gloriannu'r dadleuon yr wyf yn parhau i fod o'r farn y dylid cadw'r darpariaethau pwysig hynny yn y Mesur arfaethedig. Maent yn gwneud datganiad clir iawn o ran rôl y comisiynydd i ymchwilio i mewn i ymyrraeth honedig â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg â'i gilydd.⁷

Hefyd, amddiffynnodd y Gweinidog y fframwaith safonau newydd sy'n ymddangos yn y Mesur arfaethedig:

Yr wyf yn dal i gredu'n gryf, os nad yn gryfach nag erioed, fod y Mesur arfaethedig a gyflwynais yn y gwanwyn yn cynrychioli deddfwriaeth synhwyrol, ddefnyddiol a phwrpasol. Gosod sylfaen a fframwaith fydd y Mesur arfaethedig. O'i basio, bydd modd cyflwyno is-ddeddfau er mwyn creu'r safonau iaith a fydd yn eu tro yn sicrhau gwasanaethau gwell i siaradwyr Cymraeg a'r hawl iddynt dderbyn gwasanaethau Cymraeg. Bydd y safonau hefyd yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus ac eraill yn ystyried y Gymraeg wrth ddatblygu polisiau a gwasanaethau newydd.⁸

Yn olaf, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai gwelliannau'n cael eu cyflwyno er mwyn sefydlu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg i sicrhau deialog rheolaidd rhwng Gweinidogion a thrawstoriad o sefydliadau sydd â diddordeb yn y Gymraeg:

Er y bydd y comisiynydd a'i banel cynghori mewn sefyllfa i gynghori'r Llywodraeth ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yr wyf o'r farn y byddai'r Llywodraeth yn elwa hefyd o allu sicrhau deialog cyson rhwng Gweinidogion a chroestoriad o gyrff sydd â diddordeb yn y Gymraeg ac sydd â chyfraniad i'w wneud er mwyn ei hyrwyddo—ac, yn wir, sydd eisoes yn gwneud cyfraniad er mwyn ei hyrwyddo. Dyma'r cyrff fydd â diddordeb cyson yng nghyswllt gwireddu strategaeth iaith y Llywodraeth. Byddaf, felly, yn cynnig gwelliant priodol i'r Mesur arfaethedig i sicrhau hynny drwy greu cyngor partneriaeth y Gymraeg.⁹

Yn dilyn dadl Cyfnod , cytunodd y Cynulliad yn unfrydol ar egwyddorion cyffrediniol y Mesur arfaethedig.

4. Cyfnod 2

Cynhaliwyd trafodion Cyfnod 2 yn ystod dau gyfarfod Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ar 14 a 21 Hydref 2010. Ceir crynodeb isod o'r holl welliannau a gyflwynwyd mewn perthynas â phob Adran o'r Mesur arfaethedig wedi'u grwpio fel y'u trafodwyd gan Aelodau yn y Pwyllgor.

O dan Reol Sefydlog 23.33, caiff unrhyw Aelod Cynulliad gyflwyno gwelliannau i'w hystyried gan Bwyllgor yng Nghyfnod 2, ond, fel y nodwyd yn Rheol Sefydlog 23.35, dim ond Aelodau'r Pwyllgor a gaiff gynnig y gwelliannau hynny neu bleidleisio arnynt. Fodd bynnag, gyda chaniatâd y Cadeirydd, caiff Aelod Cynulliad nad yw'n aelod o bwyllgor

⁶ [Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2010](#)

⁷ [Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2010](#)

⁸ [Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2010](#)

⁹ [Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2010](#)

gymryd rhan mewn cyfarfod Pwyllgor (ond ni chânt bleidleisio yng Nghyfnod 2) o dan Reol Sefydlog 10.43.

Cyflwynodd Leanne Wood, nad oedd yn aelod o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, nifer o welliannau i'r Mesur arfaethedig ond yr unig gyfarfod y bu'n bresennol ynddo oedd ail gyfarfod trafodion Cyfnod 2 y Mesur arfaethedig ar 21 Hydref 2010.

4.1. *Rhan 1: Statws swyddogol y Gymraeg*

Statws swyddogol y Gymraeg (gwelliannau 5 a 153):

Cafodd gwelliant 5, a gynigiwyd gan y Gweinidog, ei dderbyn gan y Pwyllgor. Mae'r gwelliant yn gadael allan is-adrannau (1) a (2) yn adran 1 yn gyfan gwbl ac yn rhoi yn eu lle is-adrannau cwbl newydd ynghylch statws swyddogol y Gymraeg. Nodir y gwelliant llawn isod:

Tudalen 12, llinell 12, gadewch allan is-adrannau (1) hyd at (2) a rhowch yn ei lle —

- () Mae statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.
- () Rhoddir effaith gyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg drwy gyfrwng deddfiadau ynghylch y canlynol—
 - (a) dyletswyddau ar gyrff i ddefnyddio'r Gymraeg, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny, sy'n galluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn ymwneud y cyrff hynny â hwy (megis darparu gwasanaethau gan y cyrff hynny);
 - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
 - (c) dilysrwydd defnyddio'r Gymraeg;
 - (d) hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg;
 - (e) rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny gyda'i gilydd;
 - (f) creu swydd Comisiynydd y Gymraeg; ac
 - (g) materion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
- () Mae'r deddfiadau hynny'n cynnwys deddfiadau sy'n gwneud y canlynol (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt) —
 - (a) ei gwneud yn ofynnol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal yn nhrefodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
 - (b) rhoi hawl i siarad Cymraeg mewn achosion cyfreithiol yng Nghymru;
 - (c) rhoi statws cyfartal i destunau Cymraeg a Saesneg—
 - (i) Mesurau a Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a
 - (ii) is-ddeddfwriaeth;
 - (d) gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i fabwysiadu strategaeth sy'n nodi sut y maent yn bwriadu hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg;
 - (e) creu safonau ymddygiad sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg, neu â phaidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, mewn cysylltiad—
 - (i) â chyflenwi gwasanaethau,

- (ii) â llunio polisi, a
- (iii) ag arfer swyddogaethau neu gynnal busnesau neu ymgyniadau eraill;
- (f) creu safonau ymddygiad o ran hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg;
- (g) creu safonau ymddygiad ar gyfer cadw cofnodion mewn cysylltiad â'r Gymraeg;
- (h) gosod dyletswydd i gydymffurfio â'r safonau ymddygiad hynny sy'n cael eu creu, a chreu rhwymedïau am fethiannau i gydymffurfio â hwy; ac
 - (i) creu swydd Comisiynydd y Gymraeg a chanddi swyddogaethau sy'n cynnwys—
 - (ii) hybu defnyddio'r Gymraeg,
 - (iii) hwyluso defnyddio'r Gymraeg,
 - (iv) gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg,
 - (v) cynnal ymholiadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd, a
 - (vi) ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.¹⁰

Wrth siarad am welliant 5, dywedodd y Gweinidog:

The Government has given careful consideration to its amendment in light of the strength of the views put forward during the committee's consideration of the proposed Measure at Stage 1 that section 1, as drafted, did not achieve the 'One Wales' objective of confirming official status. The result is seen in amendment 5, which confirms the official status of the Welsh language and provides certainty as to how the law gives legal effect to the concept of official status for the Welsh language. To this end, new subsection 1 states that the Welsh language has official status in Wales. New subsection 2 provides that legal effect is given to official status through legislation about the matters described in that part of the legislation. New subsection 3 provides examples of the types of enactments that give legal effect to the official status of the Welsh language. New subsection 4 states that the proposed Measure does not affect the status of the English language in Wales. In Wales, the English language already enjoys the status of being the language of default of the Governments of the UK. Therefore, it is important to stress that the rights of English speakers are not affected.¹¹

Gwrthododd y Pwyllgor welliant 153 a gynigiwyd gan Jenny Randerson. Bwriad y gwelliant hwn oedd gadael allan adran 1 yn ei chyfanrwydd, a rhoi yn ei lle datganiad gwahanol ar statws swyddogol y Gymraeg i'r un a gynigwyd gan y Gweinidog.

Wrth siarad am y gwelliant, dywedodd Kirsty Williams wrth y Pwyllgor:

... we believe that the Minister's amendment is very complex. It sets out several areas where the official status of the language is guaranteed, such as in the proceedings of our own institution, the National Assembly, by setting standards for the use of Welsh. Nevertheless, we believe that there is a danger in this approach. By setting out in such detail the circumstances in which Welsh is equal, it inevitably implies that anything not included on the list does not have equal status. Our amendment is simple and clear. It is directly based on the committee's report and previous work, including a specific proposed amendment. We believe that the inclusion of a clear, unambiguous statement of official status is an

¹⁰ Hysbysiad ynghylch y Gwelliannau a gyflwynwyd ar 5 Hydref 2010, Gwelliant 5

¹¹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 20

important symbolic action. Without that, the whole proposed Measure is undermined.¹²

Cefnogodd Paul Davies welliant 153 a dywedodd ei fod yn teimlo ei fod yn well na gwelliant arfaethedig y Llywodraeth:

Deallaf welliant y Llywodraeth, a'i fod yn ceisio cryfhau'r Mesur arfaethedig, ond nid yw'n mynd yn ddigon pell. Os ydym am greu Cymru gwir ddwyieithog, mae'n hollbwysig bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu cydnabod fel ieithoedd swyddogol Cymru a'u bod yn cael eu trin yn gyfartal.¹³

Fel ymateb, nododd y Gweinidog y rhesymau pam na fyddai'n cefnogi'r datganiad gwahanol ar statws swyddogol y Gymraeg, fel y'i cynigiwyd gan Jenny Randerson :

For the most part, critics of section 1 as drafted have advocated the insertion of a broad statement along the lines of amendment 153. However, an amendment such as is proposed is completely unpredictable and ambiguous in terms of its legal effect. It should be borne in mind that a key part of the Assembly's role as a democratically elected legislature is to produce clear and certain legislation, and what is proposed in amendment 153 represents the opposite of these aims and would result in lawyers challenging and, ultimately, courts of law determining the effect of this section. I cannot for the life of me believe that that is what Members of this Assembly would want.¹⁴

4.2. *Rhan 2: Comisiynydd y Gymraeg*

Penodi (gwelliannau 158, 66, 67 a 159):

Cymeradwyodd y Pwyllgor welliannau 66 a 67 a gynigiwyd gan y Gweinidog. Mae'r gwelliannau hyn yn cynyddu cyfnod penodiad y Comisiynydd o bump i saith mlynedd ac yn ei gyfyngu i un cyfnod ac ni ellir ei ailbenodi. Wrth fynegi ei gefnogaeth ar gyfer y gwelliannau hyn, dywedodd y Gweinidog:

Taking both together, the purpose of the amendments is to increase the duration of the commissioner's appointment from five to seven years, and limit it to a single term without reappointment. Together, these amendments will ensure that the commissioner holds office for a sufficient amount of time to be able to make a difference, and removing the provision for reappointment would mean that the commissioner would be unconcerned by the prospect of reappointment at the end of his or her tenure, and would be able to carry out his or her functions independently until the end of the appointment period. That is consistent with the appointment of the Children's Commissioner for Wales. I therefore urge the committee to support amendments 66 and 67.¹⁵

Gwrthododd y Pwyllgor welliannau 158 a 159 a gynigiwyd gan Paul Davies. Bwriad y gwelliannau hyn oedd newid y broses ar gyfer penodi'r Comisiynydd i sicrhau y caiff ei benodi drwy benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol neu drwy gynnig a gynnigir gan Brif Weinidog Cymru.

Wrth siarad am ei welliannau, dywedodd Paul Davies wrth y Pwyllgor:

Pwrpas y gwelliannau hyn yw i sicrhau annibyniaeth y comisiynydd, sydd yn hollbwysig i'r

¹² Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 13

¹³ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 14

¹⁴ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 18

¹⁵ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 40

broses. Mae fy ngwelliannau i yn sicrhau bod y broses yn agored a thryloyw. Ni chredaf y dylai penodiad y comisiynydd gael ei wneud gan y Prif Weinidog na'r Gweinidogion gan ei bod yn hollbwysig bod hyd braich rhwng Gweinidogion a'r comisiynydd.¹⁶

Pwysleisiodd hefyd fod y gwelliannau'n adlewyrchu'r argymhellion yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor:

Hoffwn atgoffa'r pwyllgor hefyd mai'r pwyllgor hwn, yng Nghyfnod 1 y Mesur arfaethedig, a awgrymodd yn union yr hyn y mae fy ngwelliannau i yn ceisio eu cyflawni.¹⁷

Cefnogodd Kirsty Williams y gwelliannau, gan ddweud:

We feel that with a commissioner who must, perhaps, at some stage—not necessarily with this Minister, but with Ministers in years to come—go head to head with a Minister over an issue, a situation could arise in which the commissioner could be seen to be weak in failing to challenge the Government in its handling of issues surrounding the language. We believe that amendments 158 and 159 will strengthen the hand of the commissioner by making this more at arm's length than is currently envisaged.¹⁸

Yn ei ymateb, nid oedd y Gweinidog yn derbyn bod angen newid y broses benodi ac amddiffynnodd y darpariaethau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynydd a oedd eisoes wedi'u cynnwys yn y Mesur arfaethedig:

Mae'n werth pwysleisio unwaith eto bod y dull yr ydym yn ei argymhell, bod penodi gan y Prif Weinidog, yn gwbl gyson â'r broses o benodi Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Yr un broses yw hi. Yr wyf wedi gwrando'n ofalus ar y dystiolaeth a gyflwynwyd am rôl y Cynulliad wrth benodi. Mae'r Mesur arfaethedig, fel y'i drafftwyd, yn caniatáu i'r Prif Weinidog gymryd sylw o farn y Cynulliad Cenedlaethol, pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol ac Aelodau unigol, wrth ymgymryd â'r dasg o benodi comisiynydd. Hefyd, adeiladwyd ffyrdd o gadw cydbwysedd i mewn i'r broses honno i sicrhau ei bod yn agored, yn dryloyw ac yn deg.¹⁹

Wrth ymateb i'r ddadl, anghytunodd Paul Davies â'r Gweinidog a dywedodd y gellir cyfiawnhau proses benodi wahanol yn yr achos hwn oherwydd bod gan y Comisiynydd bwerau statudol cymharol eang:

Yr wyf wedi gwrando'n astud ar sylwadau'r Gweinidog ynglŷn â phenodi comisiynwyr eraill, ond mae gwahaniaeth rhwng penodi'r comisiynydd plant neu'r comisiynydd pobl hŷn a phenodi'r comisiynydd iaith, gan y bydd gan y comisiynydd iaith fwy o bwerau. Felly, er mwyn i'r cyhoedd gael hyder yn y system, mae'n bwysig eu bod yn gweld bod penodi'r comisiynydd yn cael ei wneud yn annibynnol, a'r ffordd orau o wneud hynny yw sicrhau bod hynny'n cael ei wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol.²⁰

Swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chomisiynydd y Gymraeg (gwelliannau 64, 181 a 12):

Derbyniodd y Pwyllgor welliannau 64 a 12 a gynigiwyd gan y Gweinidog. Bwriad y

¹⁶ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 31

¹⁷ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 32

¹⁸ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 33

¹⁹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 35

²⁰ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 41

gwelliannau hyn yw cryfhau annibyniaeth y Comisiynydd ar Lywodraeth Cymru . Wrth gefnogi'r ddau welliant, dywedodd y Gweinidog:

[Amendment 64] will place a duty on the Welsh Ministers when exercising functions in relation to the commissioner to have regard to the desirability of ensuring that the commissioner is under as few constraints as reasonably possible when determining his or her own activities, timetables and priorities. Such a duty would require the Welsh Ministers, when exercising any functions in relation to the commissioner, to give careful consideration to the way in which the function is exercised. Any failure on the part of the Welsh Ministers to comply with the duty to have regard to the desirability of minimising the constraints placed upon the commissioner could be subject to the overview of the courts by way of judicial review. As such, I believe that this amendment will provide an additional safeguard in relation to the commissioner's independence from Government ...

I have responded to the view expressed by some stakeholders, and also raised in the committee's Stage 1 report, of the wish to see additional safeguards included in the proposed Measure to secure the commissioner's independence from Government. I have therefore tabled amendment 12, which provides exceptions to the Welsh Ministers' power to give direction to the commissioner under section 15—a power that I would expect to be used only in exceptional cases in any event. That will mean that the Welsh Ministers will not be able to give directions to the commissioner in relation to giving a compliance notice to a person, under Part 5 of the proposed Measure, 'Enforcement of Standards', and Part 6 on the 'Freedom to use Welsh'. In other words, this amendment will secure the commissioner's independence from Government in undertaking his or her key regulatory function of imposing and enforcing standards on organisations and investigating alleged interferences with a person's freedom to use Welsh.²¹

Ni chafodd gwelliant 181, a gynigiwyd gan Leanne Wood, ei roi gerbron ac felly ni chynhaliwyd pleidlais arno.

Gwelliannau technegol a gwelliannau amrywiol (gwelliannau 65, 68, 70, 11, 14, 15, 16, 17, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 122, 23, 24, 25, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 39, 41, 126, 127, 128, 129, 130, 131, 132, 46, 47, 49, 53, 133, 134, 135, 136, 138, 139, 54, 55, 59, 63 a 4):

Derbyniodd y Pwyllgor yr holl welliannau uchod a gynigiwyd gan y Gweinidog. Dim ond newidiadau technegol ac ôl-ddilydol y mae'r gwelliannau hyn yn eu gwneud i'r Mesur arfaethedig.

Cyllid (gwelliant 69):

Cytunodd y Pwyllgor ar welliant 69 a gynigiwyd gan y Gweinidog. Wrth gynnig y gwelliant, dywedodd y Gweinidog:

Amendment 69 provides the Welsh Ministers with an express power to fund the commissioner. It was always the intention that the commissioner should be funded by the Welsh Ministers ...²²

Swyddogaethau (gwelliannau 185, 186, 10, 160 a 6)

²¹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraffau 46 i 47

²² Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 72

Cytunodd y Pwyllgor ar welliannau 6 a 10 a gynigiwyd gan y Gweinidog. Mae gwelliant 10 yn gwneud gwelliannau drafftio drwy gysoni'r gwaith drafftio mewn adrannau eraill o'r Mesur arfaethedig.

Bwriad gwelliant 6 yw egluro diben swydd y Comisiynydd. Eglurodd y Gweinidog fod y gwelliant hwn yn ymateb i sylwadau rhanddeiliaid yn ystod gwaith craffu ar y Mesur arfaethedig yng Nghyfnod 1, sef bod angen mynegi diben swydd Comisiynydd y Gymraeg yn gliriach yn y Mesur arfaethedig.²³ Aeth ymlaen i egluro mwy am y dull newydd hwn:

This approach clearly sets out the commissioner's principal aim and therefore the expectations on him or her as a result of the proposed Measure. I have tabled amendment 6 to ensure that the commissioner's principal aim in exercising his or her functions is to promote and facilitate the use of the Welsh language. The proposed new section also places a duty on the commissioner in exercising any of his or her functions in accordance with the same to undertake certain actions that include working towards increasing the use of the Welsh language in the provision of services and increasing other opportunities for persons to use the Welsh language.

Amendment 6 also requires the commissioner in exercising his or her functions in accordance with the principal aim to have regard to the official status that the Welsh language has in Wales ; the duties to use Welsh that are or may be imposed by law and the rights that arise from the enforceability of those duties; the principle that, in Wales, the Welsh language should be treated no less favourably than the English language; and the principle that persons in Wales should be able to live their lives through the medium of Welsh. For these reasons, I urge the committee to support amendment 6, which I have tabled.²⁴

Gwrthododd y Pwyllgor welliant 160 a gynigiwyd gan Paul Davies. Bwriad y gwelliant hwn oedd "gwahanu'r cyfrifoldebau dros hyrwyddo a rheoleiddio'r iaith Gymraeg" i sicrhau bod pob swyddogaeth yn annibynnol ar y swyddogaethau eraill. Wrth siarad am ei welliant, dywedodd Paul Davies:

Mae rhai pobl yn pryderu y gallai sefyllfa lle mae gan un person gyfrifoldeb dros hyrwyddo a phlisma'r iaith Gymraeg greu problemau yn y dyfodol. Byddai'n llawer mwy dymunol pe bai rheoleiddio a hyrwyddo'r Gymraeg yn hollol annibynnol ar ei gilydd, er mwyn osgoi anghysondeb ...

Mae'r gwelliant hwn yn cynnig y dylai'r dirprwy gomisiynydd, neu unigolyn arall o fewn swyddfa'r comisiynydd, fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg, tra bod y comisiynydd ei hun yn gyfrifol am blisma a rheoleiddio'r iaith. Credaf fod y gwelliant hwn yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar y comisiynydd i strwythuro ei swyddfa fel y dymunai ef neu hi. Y comisiynydd, felly, byddai'n penderfynu sut y byddai'r cyfrifoldebau plisma a hyrwyddo yn cael eu cyflawni. Mae'r gwelliant hwn yn briodol, gan ei fod yn gwahaniaethu'r swyddogaeth hyrwyddo a'r swyddogaeth rheoleiddio o fewn swyddfa'r comisiynydd.²⁵

Fel ymateb, dywedodd y Gweinidog ei fod yn teimlo bod gwelliant o'r fath yn amhriodol oherwydd y byddai'n cyfyngu ar strwythur swyddfa'r Comisiynydd a chwmpas ei waith:

²³ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 130

²⁴ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraffau 130 i 132

²⁵ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraffau 138 i 139

Hoffwn ddatgan, Paul, y byddet yn ceisio dweud wrth y comisiynydd sut yn union y byddai'n rhaid iddo weithredu. Bydd gennym un comisiynydd, ac un swyddfa. Mae ceisio datgan—mewn Mesur arfaethedig—sut y bydd y comisiynydd yn gweithredu, yn y dull hwn ac yn y maes hwn, yn amhriodol. Nid oes sicrwydd ynghylch lle bydd y prif waith o hyrwyddo yn gorwedd. Nid yw'r penderfyniad hwnnw wedi ei wneud hyd yn hyn. Er mwyn eglurder, ac am y rhesymau a nodwyd gennyf eisoes, ni chredaf y dylid derbyn y gwelliant hwn.²⁶

Ni chafodd gwelliannau 185 a 186, a gynigiwyd gan Leanne Wood, eu rhoi gerbron ac felly ni chynhaliwyd pleidlais arnynt.

Y modd y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin (gwelliannau 7, 18, 19, 20, 21 a 3):

Derbyniodd y Pwyllgor welliannau 7, 18, 19, 20, 21 a 3 a gynigiwyd gan y Gweinidog.

Eglurodd y Gweinidog mai diben y gwelliannau oedd diwygio'r teitl hir ar ddechrau'r Mesur arfaethedig er mwyn amlinellu diben a bwriad y Mesur arfaethedig yn glir o'r cychwyn cyntaf. Maent yn adlewyrchu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1:

Mae gwelliannau 7, 18, 19, 20, 21 a 3, gyda'i gilydd, yn adlewyrchu trafodaethau a gafwyd yng Nghyfnod 1 y craffu o ran amcanion y Mesur arfaethedig. Awgrym y pwyllgor oedd y dylai'r Mesur arfaethedig ddatgan yn gliriach mai ei bwrpas yw hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg. Bwriad y gwelliannau hyn yw adlewyrchu ei amcanion, sef hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg a sefydlu comisiynydd sydd â'r amcan creiddiol o hyrwyddo'r Gymraeg.

Amendment 7 will ensure that, in exercising his or her general functions, the commissioner may do anything that he or she thinks appropriate to work towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language. Amendment 18 will ensure that service delivery standards are intended to promote and facilitate the use of the Welsh language and will work towards ensuring that it is treated no less favourably than the English language.

Amendments 19, 20 and 21 will ensure that policy-making standards are intended to focus on the effects of policy decisions on the promotion and facilitation of the use of the Welsh language and on working towards ensuring that it is treated no less favourably than the English language. Amendment 3 is required to ensure that the long title of the proposed Measure accurately reflects those amendments.

The proposed Measure is designed to promote and facilitate the use of the Welsh language and to bring Welsh-language services up to the level of English-language services, because, as a rule, it is Welsh speakers who face difficulties obtaining services in Welsh. By and large, English speakers are well provided for with regard to their choice of language.

Felly, pwrpas y gwelliannau hyn yw rhoi cyfeiriad a ffocws clir i waith y comisiynydd. Y bwriad creiddiol y tu ôl i greu'r safonau hyn a'r safonau sy'n ymwneud â pholisi yw cryfhau safle'r Gymraeg. Credaf fod y gwelliannau hyn yn adlewyrchu'r trafodaethau a gafwyd yn y pwyllgor yn ystod Cyfnod 1, a gofynnaf i chi eu cefnogi.²⁷

Gofynion adrodd (gwelliannau 8 a 13):

²⁶ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 141

²⁷ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraffau 86 i 90

Derbyniodd y Pwyllgor welliannau 8 a 13 a gynigiwyd gan y Gweinidog. Mae'r gwelliannau hyn yn dileu'r dyletswyddau a osodwyd ar y Comisiynydd i anfon copïau o'i adroddiadau pum mlynedd a'i adroddiadau blynyddol i Dŷr Cyffredin a Thŷr Arglwyddi.

Wrth gefnogi'r gwelliant hwn, dywedodd y Gweinidog:

Having reviewed the content of the proposed Measure since its introduction, I have concluded that the commissioner's duty to publish his or her five-year report and an annual report is sufficient to ensure that interested MPs and peers will be able to access copies of these reports should they wish to do so ... The proposed Measure already rightly provides that these reports must be laid before the National Assembly. In publishing the reports, I am sure that the commissioner will wish to bring them to the attention of as wide an audience as possible and will utilise the most effective means of achieving this aim, including the internet.²⁸

Ymholiadau (gwelliant 9):

Derbyniodd y Pwyllgor welliant 9 a gynigiwyd gan y Gweinidog. Mae'r gwelliant hwn yn dileu is-adran 6(8)(d), ynghylch yr ymholiadau y gall y Comisiynydd eu cynnal, o'r Mesur arfaethedig. Eglurodd y Gweinidog y sail resymegol dros ei dileu:

Having reviewed section 6 of the proposed Measure as introduced, which provides the commissioner with a power to conduct inquiries into any matter relating to his or her functions, I have concluded that subsection 6(8)(d) needs to be removed ...

Briefly, the effect of section 6(8)(d) is to exclude from the inquiry any aspect that relates to the person under investigation and, in so doing, the provision goes beyond placing a restriction on inquiring into the suspected failure to comply with the relevant requirement. That section could result in the commissioner's having to discontinue or suspend an inquiry. My concern regarding this provision is that it could lead to a situation where the effectiveness of inquiries would be impaired because they would, as far as possible, have to refrain from looking into any aspect relating to the person under investigation, or which could require that person's involvement. Additionally, the commissioner could have to discontinue or suspend numerous inquiries which, among other things, could lead to a waste of public money. Such circumstances could also lead to the credibility of the commissioner's office and other inquiries conducted by the commissioner being undermined. The effect of amendment 9 will be to allow the commissioner freedom to continue with those aspects of an inquiry that relate to the person being investigated under Part 5 ... Deletion of the current provision would allow an inquiry under section 6 and an investigation under Part 5 to run in parallel and avoid the situation that an inquiry could not continue to look at any aspects of a particular person's conduct.²⁹

4.3. Rhan 3: Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg (gwelliannau 182, 161, 152, 162 a 183):

Gwrthododd y Pwyllgor welliannau 161 a 162 a gynigiwyd gan y Paul Davies. Bwriad y gwelliannau hyn, a oedd yn debyg i welliannau 159 a 159 mewn perthynas â phenodi'r Comisiynydd, oedd newid proses benodi'r Panel Cyngori er mwyn sicrhau y byddai ei aelodau'n cael eu penodi drwy benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gynnig a gaiff

²⁸ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 108

²⁹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraffau 115 i 116



ei roi gerbron gan Brif Weinidog Cymru. Wrth gefnogi ei welliannau, dywedodd Paul Davies:

Bydd y gwelliannau yn diogelu'r Llywodraeth hon a Llywodraethau yn y dyfodol o'r posibilrwydd o gael eu cyhuddo o ddylanwadu ar y broses. Drwy dderbyn y gwelliannau, byddwn yn sicrhau y bydd gan bawb hyder yn y system a bod y broses yn annibynnol, glir a thryloyw. Mae'r gwelliannau hyn hefyd yn adlewyrchu'n union argymhelliad y pwyllgor hwn yn ystod Cyfnod 1 y Mesur arfaethedig.³⁰

Gwrthododd y Gweinidog dderbyn y gwelliannau hyn ac eglurodd ei resymau dros wneud hyn i'r Pwyllgor:

I will take amendments 161 and 162 from Paul Davies together. As I have done in relation to the appointment of the commissioner, I have listened carefully to the evidence presented regarding giving the National Assembly a role in the process of appointing members to the advisory panel. Given that the purpose of the advisory panel is to provide expert advice and to act as a sounding board to assist the commissioner—as opposed to being Welsh Language Board mark 2—representing a wide variety of interests in Wales, it is entirely appropriate that its members should be appointed by Welsh Ministers. This is consistent with the fact that the commissioner will be appointed by the Government. An important principle that should be maintained is that the duty to appoint members of the advisory panel and the powers to dismiss them should rest with the same person. As such, it follows that the Welsh Ministers should be responsible for the dismissal of a member of the advisory panel, if they are satisfied that the person is unfit to continue as a member of panel, or is unwilling or unable to do so. Accordingly, I cannot support either of the amendments and urge the committee to resist amendments 161 and 162.³¹

Gwrthododd y Pwyllgor welliant 152 a gynigiwyd gan Jenny Randerson AC. Bwriad y gwelliant hwn oedd sicrhau bod aelodaeth y Panel Cynghori yn gynrychiadol o boblogaeth Cymru. Wrth gefnogi'r gwelliant hwn, roedd Kirsty Williams yn dadlau:

Amendment 152 relates to the make-up of the advisory panel. We believe that the advisory panel has a role to play in advising and reflecting experiences and needs across the country. We would like to ensure that the panel is as diverse as possible to include representatives from a range of geographical areas in Wales whose experience of using services and use of Welsh in the community is very different. It could also look at reflecting the diversity of those people who speak the language—everything from people whose first language is Welsh to those who are learning the language. I appreciate that such diversity might be difficult to achieve given the current size of the panel, which at present is set to be three to five people. If this amendment was to be accepted, it would be the Welsh Liberal Democrats' intention to bring forward a further amendment at Stage 3 to allow the diversity to be accommodated in a larger panel, which it is currently unable to do, given its proposed size.³²

Ni wnaeth y dadleuon o blaid y gwelliant ddarbwylo'r Gweinidog:

... Pwrpas penodi comisiynydd yw creu pencampwr yr iaith. Bydd y comisiynydd yn bencampwr o'r fath ac yn ffigwr amlwg iawn a fydd yn gallu cynrychioli buddiannau siaradwyr Cymraeg o safbwynt creu dyletswyddau ar gyrff a gofalu eu bod yn cael eu gweithredu. Bydd y panel dim ond yn gweithredu fel ymgynghorwr, ac ni fydd yn ymwneud

³⁰ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 182

³¹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 190

³² Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 186

â gwaith dydd i ddydd y comisiynydd. Ni fydd ychwaith yn ymwneud â gwneud penderfyniadau, dim ond bod yn ffynhonell arbenigedd i'r comisiynydd os oes angen o dro i dro. Gellir recriwtio'r panel o fewn Cymru ond mae'n bosibl y gellir recriwtio ei aelodau o wledydd eraill er mwyn cael arbenigedd rhyngwladol o safbwynt cynllunio ieithyddol, neu mewn rhyw faes arbenigol arall. Bydd y panel yn fach o ran nifer—tri i bump o bobl—er mwyn adlewyrchu'r ffaith mai ei bwrpas yw rhoi cyngor arbenigol i'r comisiynydd, ac nid i weithredu, fel mae'r bwrdd yn ei wneud ar hyn o bryd, fel rhyw fath o gorff sy'n cynrychioli holl amrywiaeth Cymru. Nid bwriad y panel hwn yw creu ail bwrdd yr iaith.

Therefore, amendment 152 as proposed by Jenny Randerson seems to stem from a desire to create another Welsh Language Board and fails to appreciate the intended role of the panel, which is to advise the commissioner and not to represent particular interests.³³

Ni chafodd gwelliannau 182 a 183, a gynigiwyd gan Leanne Wood, eu rhoi gerbron ac felly ni chynhaliwyd pleidlais arnynt.

4.4. *Rhan 4: Safonau*

Y Safonau a'r cyrff sy'n ddarostyngedig i safonau (amendments 156, 155 and 154):

Gwrthododd y Pwyllgor welliannau 156, 155 a 154 a gynigiwyd gan Jenny Randerson. Diben y gwelliannau hyn oedd gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiynydd a chyrff perthnasol eraill cyn gwneud rheoliadau safonau o dan Adran 25. Wrth egluro'r rhesymau dros gynnig y gwelliannau hyn, dywedodd Kirsty Williams wrth y Pwyllgor:

Under section 25, the Ministers have powers to set regulations in relation to standards and they can specify the different levels of performance, promotion and service delivery standards that the various organisations must meet. A common factor in the Government's approach to legislation at this time is that a lot of the devil is in the detail, which comes through in regulations at a later stage rather than being on the face of a Measure. These regulations have the potential to alter substantially the demands on various organisations covered by the proposed Measure. Therefore, it is reasonable for the Minister to consult with the commissioner and other relevant persons before making the regulations.

In addition, the Minister has the ability to add or remove organisations and public bodies from the list in Schedule 6, which details who is and who is not covered by the proposed Measure. Amendment 155 again says that, before using these powers to amend that list in Schedule 6, either to add or to remove persons, the Minister—this, of course, is not just about conferring powers to this individual Minister, but the generations of Ministers to follow—will be required to consult with the commissioner and others. Amendment 154 introduces a requirement to consult with the commissioner in relation to the specific standards that apply to particular organisations. The purpose behind all three amendments is to ensure that, before the Minister makes regulations under section 25, he consults with the commissioner and relevant bodies.³⁴

³³ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraffau 187 i 188

³⁴ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraffau 206 i 207

Fel ymateb, dadleuodd y Gweinidog nad oedd angen gosod dyletswyddau i ymgynghori ar Weinidogion Cymru a “bod digonedd o ddarpariaethau o fewn y Mesur arfaethedig o safbwynt ymgynghori yn gyffredinol.”³⁵ Dywedodd hefyd:

... Amendment 156 would require the Ministers, before making regulations under section 25, specifying standards, to consult the commissioner and such other persons as they consider appropriate. However, when it comes to making regulations, I have previously given assurances that a regulatory impact assessment would be prepared with regard to regulations dealing with the imposition of duties on persons, to be tabled alongside the regulations in each case. That assurance was spelt out in paragraph 5.3 of the explanatory memorandum accompanying the proposed Measure. As such, the Welsh Ministers will need to operate in accordance with the Welsh Ministers' regulatory impact assessment code for subordinate legislation, produced under section 76 of the Government of Wales Act 2006. That code includes a section on carrying out consultation in connection with regulatory impact assessments for subordinate legislation made by the Ministers. As part of the regulatory process, and in compiling any regulatory impact assessment, the Welsh Ministers are expected to carry out proper and appropriate consultation with those who are likely to be affected and those who have an interest in the overall impact of the legislation, such as the Welsh-language commissioner.

Regulations under section 25 would also be subject to the affirmative process, which will ensure scrutiny by the Assembly. Therefore, with the provisions set out in the Welsh Ministers' RIA code for subordinate legislation, there is no need for these amendments, as sufficient consultation will take place.

Amendment 155 would require the Ministers, before making an Order under section 34 amending the Schedule 6 and Schedule 8 tables to add or remove persons from those tables, to consult the commissioner along with the persons whom it was proposed to add or remove from Schedule 6 or Schedule 8 and other persons as they considered appropriate. In accordance with assurances given previously that a RIA would be prepared with regard to subordinate legislation dealing with the imposition of duties on persons, the Welsh Ministers will need to operate in accordance with the Welsh Ministers' regulatory impact assessment code for subordinate legislation and they would be expected to carry out proper and appropriate consultation with those who are likely to be affected and those who have an interest in the overall impact of the legislation.

An Order under section 34 that added or removed a person from Schedules 6 or 8 would also be subject to the affirmative procedure, which ensures scrutiny by the Assembly. In addition, to the extent that a standards investigation looks into whether P should be liable to comply with standards—where P is in Schedules 5 or 7, but not 6 or 8, P would be consulted as a relevant person. Again, therefore, I believe that there is no need for this amendment, since sufficient consultation will take place.

Amendment 154 would require Ministers, before making regulations under section 38 authorising the commissioner to give a person a compliance notice requiring that person to comply with a standard, to consult the commissioner, the person to whom it is proposed to make the standards specifically applicable, and such other persons as they consider appropriate. Again, in accordance with assurances given previously that a regulatory impact assessment would be prepared with regard to regulations dealing with the imposition of

³⁵ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 209

duties on persons, Welsh Ministers would need to operate in accordance with the Welsh Ministers' regulatory impact assessment code for subordinate legislation. So, again, there is no need for this amendment, since sufficient consultation will take place.³⁶

Pennu (gwelliannau 175, 178, 26, 184, 42, 176 a 177):

Derbyniodd y Pwyllgor welliannau 26 a 42 a gynigiwyd gan y Gweinidog. Mae'r gwelliannau hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru beidio â gwneud safonau cyflenwi gwasanaethau yn gymwys i bobl benodol mewn amgylchiadau pan fyddai gwneud hynny'n afresymol neu'n anghymesur. Wrth gefnogi'r gwelliannau hyn, dywedodd y Gweinidog:

Without amendments 26 and 42, under section 41 of the proposed Measure as introduced, and to the extent that service delivery standards have been specified in regulations, the Welsh Ministers have to make service delivery standards specifically applicable in relation to all Schedule 9 activities carried out by a person. Therefore, it is implicit that the commissioner, in turn, is charged with recommending a service delivery standard that is reasonable and proportionate in relation to each Schedule 9 activity carried out by a person. That could create difficulties where the commissioner is of the view that, in relation to a particular Schedule 9 activity carried out by a person, no standard can be concluded to be reasonable and proportionate.

Therefore, amendments 26 and 42 will ensure that the commissioner has a discretion to conclude that in relation to a particular Schedule 9 activity carried out by a person, it would be unreasonable and/or disproportionate to make a service delivery standard applicable to that person, and that the Ministers, in turn, have the discretion not to make service delivery standards specifically applicable to a person in relation to a particular Schedule 9 activity.³⁷

Ni chafodd gwelliannau 175, 178, 184, 176 a 177 a gynigiwyd gan Leanne Wood, eu rhoi gerbron ac felly ni chynhaliwyd pleidlais arnynt.

Safonau hybu (gwelliannau 147, 77, 145, 146, 148, 149, 150, 151 a 22):

Mae'r holl welliannau hyn yn gysylltiedig ag Atodlen 6 o'r Mesur arfaethedig, sy'n cynnwys rhestr o'r holl gyrff cyhoeddus y mae'r Mesur arfaethedig yn berthnasol iddynt a'r mathau o safonau sy'n gymwys iddynt.

Derbyniodd y Pwyllgor welliannau 77 a 22 a gynigiwyd gan y Gweinidog. Mae'r gwelliannau hyn yn ychwanegu safonau hybu at y safonau y gallai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru fod yn gymwys iddynt o dan Atodlen 6 o'r Mesur arfaethedig. Wrth egluro'r rhesymau dros ymestyn safonau hybu i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, dywedodd y Gweinidog:

National parks carry out, in very specific areas, functions that would normally be carried out by local authorities, such as making planning decisions, awarding grants and running educational courses for the public. The fact that legislative provision relating to national park authorities has an effect for the purpose of conserving and enhancing the natural beauty, wildlife and cultural heritage of an area, and of promoting opportunities for the understanding and enjoyment of those areas by the public suggests that national park authorities could, potentially, have an important strategic role to play regarding the

³⁶ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraffau 210 i 214

³⁷ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraffau 54 i 55

promotion of the Welsh language.³⁸

Eglurodd y Gweinidog hefyd fod gwelliant 22 yn ychwanegu is-adran newydd, sef is-adran (e), at adran 37:

Subsection (e) provides the opportunity for persons in Schedule 6 to give consent to the promotion standards being potentially applicable to them. Amendment 22 also defines what is meant by consent and provides for any person who has given consent to be required to comply with promotion standards to be able to free themselves from this commitment at a later date, subject to the agreement of Welsh Ministers, as is the case in relation to persons volunteering to be within other kinds of standards.³⁹

Pwysleisiodd y Gweinidog y cyflwynwyd y ddau welliant fel ymateb i argymhelliad yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor i ailystyried i ba gyrff y dylai'r safonau hybu fod yn gymwys⁴⁰.

Gwrthododd y Pwyllgor welliannau 147, 145, 146, 148, 149, 150 a 151 a gynigiwyd gan Jenny Randerson AC. Bwriad y gwelliannau arfaethedig hyn oedd ychwanegu safonau hybu at y safonau y mae gwahanol sefydliadau diwylliannol yng Nghymru, fel Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a chynghorau cymunedol, yn ddarostyngedig iddynt o dan Atodlen 6 o'r Mesur arfaethedig. Wrth gefnogi'r gwelliannau, dywedodd Kirsty Williams:

At Stage 1, the committee recommended that the proposed Measure be amended so that those organisations that have the Welsh language as a core function of their operations should have promotion standards added to the set of standards that would apply to them. These amendments are intended to achieve that objective.

In addition, these amendments would apply promotion standards to community councils in order to achieve parity with local authorities and national parks. I believe that it is the Minister's intention to add to the Schedule, and I support that.

It should be noted that, potentially, these standards could be applied to some community councils, where it is thought appropriate, while those community councils where it is not deemed appropriate would not have the standards applied, thereby affording some flexibility. However, I believe that community councils should be included.⁴¹

Fel ymateb, amlinellodd y Gweinidog ei wrthwynebiad i'r gwelliannau hyn:

The policy intention is that promotion standards would apply only to those organisations that already have a wide role to play with regard to shaping and developing communities. They should apply to organisations that already provide a strong lead as far as community development is concerned, and which have available to them the expertise, influence and authority that will enable them to take that lead. It is those types of organisations that will be in a position to exercise a widespread influence on local communities in relation to the use of Welsh. Promotion standards are about taking a wider view; they are about developing new initiatives and strategies aimed at promoting the use of Welsh within and across communities.

³⁸ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 255

³⁹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 256

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 257

⁴¹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraffau 245 i 247

They are not suitable for organisations that have a specific focus to their work and that were established to deliver services related to specific fields. It would not be right or proper to expect those organisations to develop strategies to promote the use of Welsh in the wider sense of these words within the communities that they serve. Community councils, the Arts Council of Wales, the BBC, the National Library of Wales, National Museum Wales, S4C and the Welsh Books Council all have a crucial role to play in promoting the Welsh language. However, they do so through the undertaking of their core functions. In this sense, all of the organisations listed in Schedule 6 could have a role to play with regard to promoting the use of Welsh, but as part of their ongoing core activities and as part of the services that they offer or in policy development in their specific areas.⁴²

Y cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i safonau (gwelliannau 78, 79, 80, 81, 82, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 91, 92, 93, 94, 95, 96, 97, 98, 143, 144, 99, 100, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 141, 142, 111, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118, 119, 120 a 121):

Derbyniodd y Pwyllgor welliannau 78, 79, 80, 81, 82, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 91, 92, 93, 94, 95, 96, 97, 98, 143, 144, 99, 100, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 141, 142, 111, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118, 119, 120 a 121a gynigiwyd gan y Gweinidog. Mae'r holl welliannau hyn yn diwygio'r tabl yn Atodlen 6. Eglurodd y Gweinidog y rhesymau dros y newidiadau arfaethedig:

These amendments all make changes to the Schedule 6 table. The amendments either remove references to persons from column 1 of the Schedule 6 table, and remove the entries detailing the class of standard potentially applicable to those persons in column 2 of that table, such as when bodies cease to exist, and as a result of mergers, or they add persons to column 1 of the Schedule 6 table and insert references in column 2 to the class of standard potentially applicable to those persons, such as newly created bodies, and, having reflected on the list again, bodies that were omitted from the original list. It also ensures that standards can be imposed on those organisations that are located outside of Wales but that operate in relation to Wales, by amending references that capture only the Wales branch of an organisation, or correct the names of organisations listed in column 1 of the Schedule 6 table. I am happy to explain any of these amendments individually, should the committee wish me to do so.⁴³

Personau eraill sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau (gwelliannau 123, 124 a 125):

Derbyniodd y Pwyllgor welliannau 123, 124 a 125 a gynigiwyd gan y Gweinidog. Roedd y gwelliannau hyn yn mynd i'r afael ag argymhelliad a wnaeth y Pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1 a oedd yn awgrymu na ddylai safonau fod yn gymwys i gyflenwyr nwy petrolewm hylifedig (LPG). Dywedodd y Gweinidog:

These amendments were tabled as a direct response to the concerns expressed by stakeholders and the recommendation of this committee's Stage 1 report that

'Schedule 8 be amended to clarify that the standards will not apply to LPG providers'.

⁴² Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraffau 249 i 250

⁴³ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 14 Hydref, Paragraff 267

Unless Members wish me to give further information, I trust that the members of the committee will support these amendments.⁴⁴

Safonau – cais ar gyfer hawl i herio (gwelliannau 187 a 188):

Ni chafodd gwelliannau 187 and 188, a gynigiwyd gan Leanne Wood, eu rhoi gerbron a felly ni chynhaliwyd pleidlais arnynt.

Apelau yn erbyn gosod safonau (gwelliannau 37, 40 a 38):

Derbyniodd y Pwyllgor welliannau 37, 40 a 38 a gynigiwyd gan y Gweinidog. Mae gwelliannau 37 a 38 yn egluro adran 57 o'r Mesur arfaethedig sy'n ymdrin â hawl person i apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniadau'r tribiwnlys ar bwynt cyfreithiol. Wrth gefnogi'r gwelliannau hyn, dywedodd y Gweinidog:

Mae gwelliant 37 yn welliant i'r drafftio mewn perthynas â'r hawl i apelio o dan adran 57. O dan yr adran hwnnw, caiff person apelio i'r tribiwnlys yn erbyn penderfyniad y comisiynydd nad yw gofyniad i gydymffurfio â safon, neu i gydymffurfio â safon mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur. Mae'r gwelliant hwn yn egluro bod adran 57 yn rhwym wrth reolau'r tribiwnlys, sef rheolau sydd, ymysg pethau eraill, yn cael gwneud darpariaeth ynghylch y dull y caiff apelau o dan adran 57 eu cyflwyno. Bydd y gwelliant yn sicrhau cysondeb ag adran 91, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch apelau i'r tribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniadau'r comisiynydd a chamau gorfodi a gymerir ganddo ynghylch torri gofyniad perthnasol, er enghraifft os oes honiad bod person wedi torri safon. Felly, fe'ch anogaf i gefnogi gwelliant 37.

Mae gwelliant 38 yn darparu modd i apelio yn erbyn penderfyniadau'r tribiwnlys o dan adran 57 y Mesur arfaethedig. Mewn sefyllfa lle mae'r tribiwnlys wedi dod i benderfyniad ynghylch apêl o dan adran 57, byddai gwelliant 38 yn caniatáu i berson wneud apêl yn erbyn y penderfyniad hwnnw i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol. Bydd yn rhaid cael caniatâd y tribiwnlys a'r Uchel Lys cyn y gellir apelio i'r Uchel Lys. Mae'r gwelliant yn sicrhau cysondeb ag adran 93, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch apelau i'r Uchel Lys ar bwyntiau cyfreithiol mewn perthynas â phenderfyniadau'r comisiynydd a chamau gorfodi a gymerir ganddo ynghylch torri gofyniad perthnasol, fel honiad bod person wedi torri safon.⁴⁵

Mae gwelliant 40 yn gwneud newidiadau drafftio i'r Mesur arfaethedig o ganlyniad i'r newidiadau a gynigiwyd gan welliannau 37 a 38.

Ymchwiliadau safonau (gwelliannau 43, 44, 163 a 45):

Derbyniodd y Pwyllgor welliannau 43, 44 and 45 a gynigiwyd gan y Gweinidog. Mae gwelliannau 43 a 44 yn ymwneud ag argymhellion adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor a oedd yn awgrymu y dylid diwygio Adran 61(2) i osod dyletswydd ar y Gweinidog i ymgynghori â'r cyhoedd wrth gynnal ymchwiliad safonau. Yn ôl y Gweinidog:

Amendments 43 and 44 will ensure that the commissioner must consult each relevant person as defined in section 61(4), the advisory panel and the public. However, the commissioner will not be required to consult the public if, or to the extent that, the commissioner considers it to be inappropriate to do so.⁴⁶

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraffau 9 i 11

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraffau 97 i 98

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 118

O ganlyniad i'r newidiadau a gynigiwyd gan welliannau 43 a 44, mae gwelliant 45 yn gadael allan y ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd anfon copi o adroddiad safonau at Weinidogion Cymru, ynghyd â phob un a oedd yn rhan o'r broses ymgynghori, yn dilyn ymchwiliad safonau. Yn ôl y Gweinidog:

That would clearly be impractical and a waste of public money. In any case, it would be undesirable for the commissioner to be under a duty to send a copy of the report to persons with no interest in the outcome of an investigation. However, these amendments will ensure that any person who responds to a consultation undertaken by the commissioner will receive a copy of the standards report.⁴⁷

Gwrthododd y Pwyllgor welliant 163 a gynigiwyd gan Paul Davies. Bwriad y gwelliant hwn oedd gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i ymgynghori ag unrhyw gorff statudol neu broffesiynol sydd â diddordeb mewn ymchwiliad gan y Comisiynydd. Wrth gefnogi ei welliant, dywedodd Paul Davies wrth y Pwyllgor:

Mae'n hanfodol bod ymchwiliadau'r comisiynydd yn agored ac yn dryloyw, felly mae'n hollbwysig fod sefydliadau statudol a chyrrff proffesiynol yn cael yr hawl i ddweud eu dweud mewn ymchwiliad i mewn i ddiffyg cydymffurfio â safonau a bod y comisiynydd yn ymgynghori â hwy. Er na fydd gan rai sefydliadau ddim diddordeb uniongyrchol mewn ymchwiliad, mae'n bwysig fod y comisiynydd yn ymgynghori mor eang ag sy'n bosibl. Drwy wneud hyn, bydd y comisiynydd yn sicrhau bod yr ymchwiliad yn un trwyadl, a bydd hyn hefyd yn rhoi hyder i bobl yn y system drwy sicrhau bod cyrrff yn cael yr hawl i'r comisiynydd ymgynghori â hwy.⁴⁸

Dywedodd y Gweinidog nad oedd o blaid gweithredu yn y ffordd hon ac roedd yn fodlon y byddai digon o amser i randdeiliaid gyflwyno eu sylwadau i'r Comisiynydd yn ystod ymchwiliadau safonau:

I am not minded to single out specific additional categories of persons whom the commissioner must consult beyond each relevant person, the advisory panel and the public. There is a risk that, by imposing amendment 163 as a duty on the commissioner, we would place an onerous administrative burden on the commissioner. If we were to single out specific categories of persons, why stop at relevant regulatory or professional bodies? Once we start down this road, we could conclude that we should add further specific categories. For example, we might conclude that we should add organisations that fund the relevant persons or organisations that are regulated by the relevant person and so on.

The commissioner would be placed under a duty to identify and contact all compulsory consultees individually in order to discharge his or her duty. That would be the case even if the standards related only to the internal activities of the body subject to investigation. Such consultation could be onerous for both the commissioner and the regulatory bodies consulted. There is nothing in the proposed Measure to prevent a professional or regulatory body from participating in a public consultation. Participants in a consultation will be sent a copy of the commissioner's standards report as a result of the amendments to section 62 of the proposed Measure. I am content that there will be sufficient opportunities for professional or regulatory bodies to participate in the development of standards without having to include specific provision in the proposed Measure that would place such onerous

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 122

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 124

duties on the commissioner.⁴⁹

4.5. *Rhan 5: Gorfodi safonau*

Gorfodi – ymchwilio i fethiant i gydymffurfio â safonau (gwelliannau 157, 48 and 52):

Derbyniodd y Pwyllgor welliannau 48 a 52 a gynigiwyd gan y Gweinidog. Mae'r gwelliannau hyn yn diwygio'r dyletswyddau a osodir ar y Comisiynydd o dan 84(6) ('Ymgynghori cyn dyfarnu'n derfynol etc') o'r Mesur arfaethedig. Yn ôl y Gweinidog:

Amendment 48 will amend the duty placed upon the commissioner under section 84(6) of the proposed Measure. Under section 84, where the commissioner undertakes a section 70 investigation to, for example, breach of a standard, before the commissioner makes a final determination, or settles the investigation through his report, he or she must give the person being investigated, as well as the person who made the complaint that led to the investigation, the opportunity to make representations about the proposals. The commissioner must also give the person being investigated the opportunity to make representations about the further action, if any, that the commissioner proposes taking. Rather than having to consider any representations made by the person being investigated and the person whose complaint led to the investigation, the commissioner will have due regard to those representations before the commissioner does anything to which the representations relate.⁵⁰

Newidiodd gwelliant 52 y Mesur arfaethedig mewn ffordd debyg:

This amendment requires the commissioner to inform the person whose complaint led to the investigation about the lodging of the appeal and its outcome, in both cases, as soon as is reasonably practicable after the commissioner becomes aware of the appeal and its outcome. This will have the effect of ensuring that the person who made the initial complaint is kept informed of any developments following a section 70 investigation.⁵¹

Gwrthododd y Pwyllgor welliant 157 a gynigiwyd gan Jenny Randerson. Bwriad y gwelliant oedd ehangu'r amgylchiadau pan gaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad. Wrth gefnogi'r gwelliant, dywedodd Jenny Randerson:

This amendment simply links section 70 with section 94. The purpose of this is to ensure that the commissioner may investigate without having received a complaint. It may be that the commissioner may have other evidence that leads him or her to feel that an investigation is necessary.⁵²

Roedd y Gweinidog yn credu bod yn gwelliant yn ddiangen⁵³ a dywedodd:

... the commissioner's power to investigate under section 70 is not restricted, either expressly or implicitly, to cases where a valid complaint has been made under section 94. Section 70 provides that the commissioner is given the power to investigate a failure to comply with the relevant requirement as defined in the section. The only limitation placed on the commissioner's power to investigate by section 70 is that contained in sub-section 70(3). This sub-section provides that:

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraffau 119 i 120

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 189

⁵¹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 190

⁵² Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 140

⁵³ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 142

'If the relevant requirement is a duty to comply with a standard, the Commissioner may undertake an investigation under this section only if he or she suspects that D has failed to comply with the relevant requirement.'

Sub-section 70(3) does not state that the suspicion may be based only on a complaint made under section 94.⁵⁴

Gorfodi – cosbau sifil (gwelliant 180):

Ni chafodd gwelliant 180, a gynigiwyd gan Leanne Wood, ei roi gerbron ac felly ni chynhaliwyd pleidlais arno.

Gorfodi mewn perthynas ag apelau ynghylch safonau (gwelliannau 164, 165, 166, 167, 168, 169, 50, 170 a 51):

Derbyniodd y Pwyllgor welliannau 50 a 51 a gynigiwyd gan y Gweinidog. Mae'r gwelliannau hyn yn ymwneud ag adrannau 92 ('Pwerau'r Tribiwnlys pan wneir apêl') a 93 ('Apelau o'r Tribiwnlys'). Wrth siarad am y gwelliannau, dywedodd y Gweinidog:

Effaith gwelliant 50 fydd sicrhau bod rhaid i'r tribiwnlys roi hysbysiad o'i benderfyniad, i berson sydd wedi apelio o dan adran 91 yn erbyn penderfyniad gan y comisiynydd sy'n ymwneud â gorfodi safonau. Bydd dyletswydd hefyd ar y tribiwnlys i hysbysu'r comisiynydd o'r penderfyniad ...

Mae gwelliant 51 yn gwneud yn eglur y cyfnod ar gyfer gwneud cais i'r tribiwnlys neu'r Uchel Lys am hawl i apelio i'r Uchel Lys, ar bwynt o'r gyfraith, yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y tribiwnlys wedi apêl o dan adran 91.⁵⁵

Gwrthododd y Pwyllgor welliannau 164, 165, 166, 167, 168, 169 and 170 a gynigiwyd gan Paul Davies. Bwriad y gwelliannau hyn oedd cynyddu hawliau unigolion i apelio yn y Mesur arfaethedig. Wrth gefnogi'r gwelliant, dywedodd Paul Davies:

Pwrpas y gwelliannau yn y grŵp hwn yw rhoi rôl ganolog i'r unigolyn yn y Mesur arfaethedig hwn. Mae'n hollbwysig fod rôl yr unigolyn yn ganolog i Fesur o'r fath, ac nid yw hynny'n bodoli ar hyn bryd. Mae rôl y dinesydd, ar hyn o bryd, yn gorffen ar ôl cwyno i'r comisiynydd. Mae fy ngwelliannau i yn rhoi'r un hawliau apêl i unigolion ag sydd gan fudiadau a sefydliadau yn y Mesur arfaethedig. Ar hyn o bryd, mae gan y mudiadau a sefydliadau sydd â chwyn yn eu herbyn yr hawl i apelio ond nid oes gan yr unigolyn sydd wedi cwyno yr un hawl. Mae'n bwysig ein bod yn creu tegwch yn y Mesur arfaethedig ac mae'n hanfodol ein bod yn creu cydraddoldeb i bawb. Ar hyn o bryd, mae'r Mesur arfaethedig yn anghyson, oherwydd mae'n amlwg ei fod yn rhoi mwy o hawliau i fudiadau a sefydliadau sydd â chwyn yn eu herbyn. Yr wyf wedi derbyn sawl cynrychiolaeth oddi wrth unigolion a sefydliadau sy'n dweud bod y Mesur arfaethedig yn annheg ar hyn o bryd. Yn wir, mae'r pwyllgor hwn wedi mynegi pryder ynglŷn â hyn yn ystod Cyfnod 1 y Mesur arfaethedig, ac mae'r adroddiad yn dweud yn glir bod diffyg rôl i'r dinesydd yn y Mesur arfaethedig a bod yn rhaid i'r Llywodraeth gryfhau'r rôl hon. Mae'r pwyllgor hefyd yn dweud yn yr adroddiad bod gan yr unigolyn bwerau cyfyng iawn yn y Mesur arfaethedig, felly mae fy ngwelliannau yn ceisio rhoi mwy o bwyslais ar yr unigolyn a sicrhau bod gan y dinesydd yr un hawl â mudiadau a sefydliadau.⁵⁶

⁵⁴ Ibid

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraffau 207 i 208

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 202

Fel ymateb, gwrthododd y Gweinidog â chefnogi'r gwelliannau am resymau technegol:

Ymddengys bod gwelliant 168 yn awgrymu mai'r dyddiad ar gyfer dechrau cyfrif y 28 diwrnod mewn achos lle gall P apelio yw'r diwrnod pan fydd y comisiynydd yn hysbysebu P a D ill dau o'i benderfyniad. Os cyflwynir yr hysbysiad, am unrhyw reswm, ar ddyddiau gwahanol, mae'n annhebygol y byddai P neu D yn ymwybodol o'r dyddiad pan dderbyniodd y llall yr hysbysiad, er mwyn gwybod pa bryd y dechreuodd y cyfnod o 28 diwrnod. Hefyd, nid oes mecanwaith ar gyfer datrys pa un yw'r dyddiad cywir. Ymddengys y pwyntiau hyn yn bitw a thechnegol iawn, ond dyma'r union fath o beth sy'n gallu creu anhawster mewn deddfwriaeth.

Tynnaf eich sylw at welliant 169, lle ceir gwall technegol arall. Mae gwelliant 169 yn cyfeirio at apêl gan P, ond mae wedi'i osod mewn is-adran sy'n delio gyda D, sef y corff sydd wedi tramgwyddo. Felly, yn dechnegol, mae gwelliant 169 yn anghywir. Yr wedi gwrando ar sylwadau'r pwyllgor, ac felly gofynnaf, Paul, ichi beidio â symud i bleidlais ar y gwelliannau hyn.⁵⁷

Fodd bynnag, aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud

“Gobeithiaf ystyried yn ofalus yr hyn yr ydych chi a'r pwyllgor wedi'i ddweud yn nes ymlaen.”⁵⁸

Wrth ymateb i'r ddadl, gwthiodd Paul Davies am bleidlais ar y gwelliannau a, thrwy hynny, mynegodd ei siom ynghylch y rhesymau a roddwyd gan y Gweinidog dros wrthod â chefnogi ei welliannau:

Yr wyf yn siomedig bod y Llywodraeth yn gwrthod y gwelliannau yn fy enw i ar fanylyn technegol. Nid wyf yn glir, o glywed sylwadau'r Gweindog, a yw'r Llywodraeth mynd i gynnig gwelliannau eraill yng Nghyfnod 3 yn y maes hwn. Felly, gan nad yw'r Gweinidog wedi gwneud y mater yn glir, hoffwn symud i bleidlais.⁵⁹

4.6. *Rhan 6: Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg*

Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg – apelau i Dribiwnlys y Gymraeg (gwelliannau 190, 191 a 189):

Gwrthododd y Pwyllgor welliannau 190, 191 a 189 a gynigiwyd gan Jenny Randerson. Bwriad y gwelliannau hyn oedd rhoi'r hawl i unigolion apelio i Dribiwnlys y Gymraeg mewn amgylchiadau pan fydd y Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ymchwilio i achosion lle mae unigolyn yn credu yr amharwyd ar ei ryddid i ddefnyddio'r Gymraeg, neu mewn amgylchiadau pan fydd y Comisiynydd yn penderfynu rhoi'r gorau i ymchwiliad parhaus o'r fath. Wrth siarad am y gwelliannau, dywedodd Jenny Randerson:

This set of amendments is based very closely on the recommendations of the committee, which stated that provision could also be made for the complainant to appeal to the tribunal against decisions by the commissioner. It is all part of empowering ordinary people through the whole of this process. Amendment 189 would insert a new section giving the public the right to appeal to the Welsh language tribunal against the commissioner's decision not to investigate or not to continue with an investigation. It gives the tribunal the

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraffau 205 i 206

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 206

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 210

power to direct the commissioner to investigate or to continue to investigate, and hence it gives more strength to ordinary people as complainants.⁶⁰

Fel ymateb, dywedodd y Gweinidog ei fod yn teimlo bod y darpariaethau ar gyfer apelau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Mesur arfaethedig yn ddigonol:

The approach set out in Part 6 is for the commissioner to make recommendations and ... to report annually to Ministers with regard to the adequacy and effectiveness of the law in protecting the freedom of persons to speak Welsh with one another. We are not dealing with rights and duties here; we are dealing with a freedom to speak Welsh and enabling the commissioner to investigate and make recommendations. This is a light-touch approach and, as such, it is not necessary or appropriate to involve a tribunal in the process. Let us not forget that this committee has described the provision in Part 6 as being 'too complex and cumbersome.' I do not agree with that view, but I would suggest that adding an appeals mechanism would make this part of the proposed Measure more complex.⁶¹

4.7. *Rhan 7: Tribiwnlys y Gymraeg*

(gwelliannau 171, 172, 137, 140, 56, 57 a 58)

Derbyniodd y Pwyllgor welliannau 137, 140, 56, 57 a 58 a gynigiwyd gan y Gweinidog.

Mae gwelliant 137 yn ehangu'r seiliau ar gyfer anghymwyso person rhag bod yn aelod o'r Tribiwnlys ym Mharagraff 14 o Atodlen 11. Yn ôl y Gweinidog,

This amendment maintains public confidence in the Tribunal's work by ensuring that persons who are subject to a moratorium under a debt relief Order are disqualified from membership of the tribunal.⁶²

Mae gwelliant 140 yn gwneud gwelliannau drafftio i sicrhau cysondeb ag Atodlen 11 i'r Mesur arfaethedig.

Mae gwelliannau 56, 57 a 58 yn ymwneud â didueddrwydd y Tribiwnlys. Eglurodd y Gweinidog y newidiadau a wnaed gan y gwelliannau hyn:

Amendments 56, 57 and 58 relate to the impartiality of the tribunal and its independence or remove provision-placing duties upon the tribunal president. Amendment 56 removes the Welsh Ministers' power to require tribunal rules to be made. As introduced, the proposed Measure would confer power upon Welsh Ministers to give the president written notice that they consider it expedient for tribunal rules to include provision that would achieve a specified purpose. The president would then have to make such tribunal rules as he or she thinks necessary to achieve that purpose.

Amendment 57 removes the requirement for the president of the tribunal to give his or her annual report on the tribunal's exercise of its functions in that financial year to Welsh Ministers. Instead, this amendment requires the president of the tribunal to lay a copy of the report before the National Assembly for Wales. The amendment also removes the duty on the Welsh Ministers to send a copy of the tribunal's annual report to the House of Commons and the House of Lords. You may recall that a similar amendment, amendment 13, was accepted by the committee last week, removing the requirement on the

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 230

⁶¹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 234

⁶² Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 249

commissioner to send copies of the annual report to the House of Commons and the House of Lords.

Amendment 58 removes the requirement for the president of the tribunal to undertake annual assessments of the performance of the other members of the tribunal.⁶³

Gwrthododd y Pwyllgor welliannau 171 a 172 a gynigiwyd gan Paul Davies. Bwriad y gwelliannau hyn oedd diogelu annibyniaeth y Tribiwnlys a sicrhau bod y prosesau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Tribiwnlys yn agored ac yn dryloyw. Wrth siarad am y gwelliannau, dywedodd Paul Davies:

Nid wyf yn credu mai Gweinidogion ddylai benodi'r tribiwnlys oherwydd ei bod yn hollbwysig bod hyd braich rhwng Gweinidogion a'r tribiwnlys. Bydd y gwelliannau hyn yn diogelu'r Llywodraeth hon a Llywodraethau'r dyfodol rhag unrhyw bosibilrwydd o gyhuddiadau eu bod yn dylanwadu ar y broses. Drwy dderbyn y gwelliannau hyn, byddem yn sicrhau y bydd gan bawb hyder yn y system a bod y broses yn wirioneddol annibynnol, tryloyw a chlr. Mae'r gwelliannau hyn hefyd yn adlewyrchu'n union argymhelliad y pwyllgor hwn yn ystod cyfnod 1 o'r Mesur arfaethedig.⁶⁴

Fel ymateb, eglurodd y Gweinidog pam na fyddai'n cefnogi'r ddau welliant:

Fy marn bendant i yw nad wyf yn credu ei bod yn briodol i ddeddfwrfa benodi aelodau o'r tribiwnlys. Nid yw ymwneud y Weinyddiaeth wrth benodi aelodau o'r tribiwnlys yn ddatblygiad newydd. Nid yw'n atal tribiwnlys rhag gweithredu'n annibynnol wrth wneud penderfyniadau.

Byddai gwelliant 172 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gael cytundeb y Cynulliad Cenedlaethol cyn diswyddo aelod o'r tribiwnlys. Nid wyf yn cefnogi gwelliant 171, sy'n ceisio newid y modd y penodir aelodau o'r tribiwnlys. Yr wyf yn gryf o'r farn y dylai'r darpariaethau hynny sy'n ymwneud â diswyddo barhau i fod yn gyson â'r trefniadau sy'n ymwneud â phenodi.⁶⁵

4.8. *Rhan 9: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cynlluniau Iaith Gymraeg etc*

Swyddogaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (gwelliant 173):

Gwrthododd y Pwyllgor welliant 173 a gynigiwyd gan Paul Davies. Bwriad y gwelliant oedd gadael allan is-adran (3) o dan Adran 134 ('Diddymu'r Bwrdd a throsglwyddo swyddogaethau') er mwyn "sicrhau annibyniaeth yr iaith Gymraeg ar unrhyw ddylanwad gwleidyddol"⁶⁶. Eglurodd Paul Davies y rhesymau dros gyflwyno'r gwelliant hwn i'r Pwyllgor:

Pwrpas y gwelliant hwn yw sicrhau na fydd y Llywodraeth yn gallu cymryd cyfrifoldeb yn uniongyrchol dros hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae'n hollbwysig bod hyd braich rhwng y Llywodraeth a hyrwyddo'r iaith. Byddai'r gwelliant hwn yn sicrhau, fel mater o egwyddor, fod y Gymraeg yn gwbl annibynnol ar y Llywodraeth a gwleidyddion. Byddai'n sicrhau na fyddai'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel pêl wleidyddol. Nid wyf am un funud yn awgrymu y byddai'r Gweinidog hwn na'r Llywodraeth bresennol yn gwneud hynny, ond byddai'r gwelliant yn sicrhau na fyddai Llywodraethau yn y dyfodol yn gallu defnyddio'r iaith mewn

⁶³ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraffau 251 i 253

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 245

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraffau 247 i 248

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 308

ffordd wleidyddol.⁶⁷

Fel ymateb, dywedodd y Gweinidog ei fod yn credu y byddai'n "[g]amgymeriad mawr" i gytuno ar welliant 173 ac "y byddai gwelliant 173 yn atal trosglwyddo swyddogaethau'r bwrdd i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg i Weinidogion Cymru".⁶⁸ Ychwanegodd y Gweinidog:

Mae llawer o'r dystiolaeth wedi dweud na ddylai rheoleiddio fod ynghlwm â hybu a hyrwyddo. Felly, mae hi'n anodd dychmygu lle byddai'r hyrwyddo'n digwydd os nag ydyw'n gorwedd gyda'r Gweinidogion.⁶⁹

At hynny, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod y Mesur arfaethedig yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd "i alluogi i swyddogaethau'r bwrdd, neu rai o swyddogaethau'r bwrdd, mewn perthynas â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gael eu rhoi i Weinidogion Cymru ar ôl i'r bwrdd gael ei ddiddymu."⁷⁰

Fel ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor a oedd yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyhoeddi ai'r Comisiynydd neu Weinidogion Cymru ddylai fod yn gyfrifol am hybu'r iaith cyn dadl Cyfnod 2, pwysleisiodd y Gweinidog:

Mae'r rhain yn faterion y mae angen i mi eu trafod ymhellach gyda Bwrdd yr Iaith, gyda golwg ar ei wneud yn glir yn y strategaeth iaith ddrafft sut y dylid delio gyda'r cyfrifoldeb o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Gadewch i mi fod yn berffaith glir, fodd bynnag, fy mod yn credu bod yna fanteision clir o gadw corff cryf ac annibynnol y tu allan i Lywodraeth gyda'r gallu i ddelio gydag ystod eang o faterion ac i gynghori'r Llywodraeth, ac eraill, ynghylch polisi iaith.⁷¹

4.9. *Rhan 10: Atodol*

Cyfnodau trosiannol (gwelliant 174):

Gwrthododd y Pwyllgor welliant 174 a gynigiwyd gan Paul Davies. Bwriad y gwelliant oedd mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid ynghylch sut y byddai'r trosiad o'r system bresennol i'r system newydd yn digwydd yn ymarferol, a sicrhau y byddai'r trosiad yn effeithiol. Roedd Paul Davies yn dadlau bod trosiad o'r fath yn hanfodol er mwyn sicrhau na fydd "profiad ac arbenigedd y bwrdd"⁷² yn cael eu colli. Dywedodd hefyd:

Mae hefyd yn bwysig inni beidio â cholli'r ewyllys da sydd wedi'i adeiladau drwy ddatblygu'r cynlluniau gwirfoddol presennol. Dyna yn union oedd yr hyn a ddywedodd y pwyllgor hwn yn ei adroddiad ar drafodion Cyfnod 1 y Mesur arfaethedig. Nid yw'n glir yn y Mesur arfaethedig fel y mae ar hyn o bryd sut bydd y system newydd yn cael ei chyflwyno a sut bydd yr hen system yn cael ei diddymu. Mae angen eglurder yn y Mesur arfaethedig er mwyn rhoi hyder i bobl bydd y trosiad yn effeithiol. Diben y gwelliant hwn yw sicrhau bod y system bresennol yn parhau nes bod y safonau newydd yn barod i gymryd ei lle. Bydd y gwelliant yn sicrhau trosiad effeithiol a chllir, yn union fel yr awgrymwyd gan y pwyllgor hwn

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 301

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 303

⁶⁹ Ibid

⁷⁰ Ibid

⁷¹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 303

⁷² Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 312

yn ei adroddiad.⁷³

Cefnogodd Jenny Randerson y dadleuon hyn:

The key is to ensure that there is not a vacuum. So much momentum could be lost in the transition from schemes to standards. We see that with other initiatives of all kinds throughout Government, and so it is really important to have provisions so that we know how it will go forward.⁷⁴

Nid oedd y Gweinidog yn derbyn y dadleuon hyn a dywedodd wrth y Pwyllgor fod y gwelliant yn ddiangen:

Nid wyf yn anghytuno â dim a ddywedodd Paul am bwysigrwydd cynnal yr ewyllys da a'r berthynas y mae bwrdd yr iaith wedi'u sefydlu gyda'r cyrff gwahanol hyn. Fodd bynnag, nid oes angen y gwelliant hwn o gwbl gan ei bod yn berffaith glir yn y Mesur arfaethedig fod y cynlluniau iaith yn parhau hyd nes bod y safonau yn dod i fodolaeth. Effaith gwelliant 174 yw ychwanegu is-adran newydd i adran 136 a fyddai'n atal diddymu Rhan II Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ei chyfanrwydd hyd nes y byddai cynlluniau iaith pob corff cyhoeddus wedi'u disodli gan y safonau. Nid oes angen hynny gan fod y Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer proses drosiannol dri cham, sydd wedi'i hamlinellu yn ei adrannau 134 i 136. Mae adran 135 yn dynodi dechrau'r ail gyfnod trosiannol. Mae'n darparu ar gyfer symud o gynlluniau iaith i safonau, ac mae adran 135(2) yn berthnasol yng nghyd-destun y gwelliant hwn. Yn sgîl adran 135(2), bydd 'corff cyhoeddus' o dan Ran II Deddf 1993 yn dod yn ddarostyngedig i safonau ac ni fydd Rhan II yn gymwys bellach.⁷⁵

4.10. *Gwelliannau eraill*

Is-ddeddfwriaeth (gwelliant 62):

Derbyniodd y Pwyllgor welliant 62 a gynigiwyd gan y Gweinidog. Mae'r gwelliant hwn yn newid y gweithdrefnau y byddai'r ddau bŵer ar gyfer gwneud offerynnau statudol yn ddarostyngedig iddynt o dan y Mesur arfaethedig. Gwnaed y newidiadau hyn o ganlyniad i argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol.⁷⁶ Eglurodd y Gweinidog y rhesymau dros gyflwyno'r gwelliant i'r Pwyllgor:

Amendment 62 changes the procedure attached to two statutory-instrument-making powers in the proposed Measure. Both powers are currently subject to the negative resolution procedure. The first power is contained in section 143 and is the power to make an Order to make transitional and consequential provisions in respect of the proposed Measure. This amendment proposes to change the procedure attached to this Order-making power to the affirmative resolution procedure if the Order contains provision that makes a change to an Act of Parliament or an Assembly Measure, for example. The second power is contained in paragraph 7(1) of Schedule 1, and gives the Welsh Ministers the power to make regulations about the appointment of the commissioner. This amendment proposes to change the procedure attached to this Order-making power to the affirmative resolution procedure.

In coming to the decision to table amendments in this respect, we gave careful

⁷³ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 313

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 314

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 315

⁷⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, *Adroddiad ar Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)*, Gorffennaf 2010

consideration to the arguments and recommendations of the Constitutional Affairs Committee in its report. We agree that the procedures for making statutory instruments under the powers contained in section 143 and paragraph 7(1) of Schedule 1 should be amended.⁷⁷

Cynllun gweithredu strategaeth iaith Gymraeg a Chyngor Partneriaeth y Gymraeg (gwelliannau 60, 61 a 2):

Derbyniodd y Pwyllgor welliannau 60, 61 a 2 a gynigiwyd gan y Gweinidog.

Mae gwelliant 60 yn gosod dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi cynllun blynyddol mewn perthynas â'r strategaeth iaith Gymraeg y mae'n ofynnol iddynt ei mabwysiadu o dan adran 78 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*⁷⁸. Eglurodd y Gweinidog fod angen cynllun i "nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn gweithredu'r cynigion a amlinellwyd yn y strategaeth iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn"⁷⁹. Dywedodd hefyd:

Bydd [gan y strategaeth] oes gymharol hir, a bydd yn bwysig felly sicrhau y caiff cynllun ei ddatblygu bob blwyddyn i amlinellu'r camau sydd i'w cymryd i gyflawni'r ymrwymadau sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth.⁸⁰

Mae gwelliant 61 yn cynnig sefydlu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg. Yn ôl y Gweinidog, "caiff y cyngor partneriaeth roi cyngor neu gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch eu strategaeth a'r cynllun."⁸¹ Hefyd, amlinellod y Gweinidog swyddogaethau'r Cyngor:

Swyddogaeth y cyngor partneriaeth fydd rhoi cyngor a chyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch strategaeth iaith Gymraeg y Llywodraeth ac, yn ychwanegol, roi cyngor neu gyflwyno syniadau ynghylch cynllun gweithredu Gweinidogion Cymru i gyflawni'r cynigion a nodwyd yn y strategaeth.⁸²

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y bydd sefydlu'r Cyngor yn:

... sicrhau bod gofyniad statudol parhaol ar y Llywodraeth i weithio mewn partneriaeth gyda'r sawl sydd â diddordeb yn y Gymraeg ac yn strategaeth iaith y Llywodraeth.⁸³

Pwysleisiodd hefyd bwysigrwyd "gwneud y mwyaf o'r ystod eang o brofiad ynghylch y Gymraeg sydd ar gael inni".⁸⁴

Mae'r gwelliant hefyd yn cynnwys manylion ynghylch aelodaeth y Cyngor ac yn "gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i wneud rheolau sefydlog i reoleiddio trefniadaeth y cyngor."⁸⁵

Hawliau mewn perthynas â safonau (gwelliannau 177 a 192):

Cafodd gwelliant 177, a gynigiwyd gan Leanne Wood, ei roi gerbron gan y Cadeirydd.⁸⁶ Ni

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 325

⁷⁸ Government of Wales Act 2006 (c.32)

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 345

⁸⁰ Ibid

⁸¹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 346

⁸² Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 347

⁸³ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 348

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 351

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraffs 349-350

chynigiwyd gwelliant 192 ac felly ni chynhaliwyd pleidlais arno.

Roedd gwelliant 177 yn cyflwyno adran hollol newydd, a'i fwriad oedd sefydlu hawliau cyffredinol i gyd-fynd â safonau. Roedd y gwelliant yn datgan:

Mae gan bawb yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn gymesur o dan yr amgylchiadau.⁸⁷

Wrth sôn am y gwelliant, dywedodd Leanne Wood wrth y Pwyllgor:

It seeks to put a guiding principle at the heart of the proposed Measure that explains to all, the public, the commissioner and the Government, the reason for setting standards for bodies to provide Welsh-language services. Establishing that general right would raise the expectations of people in Wales with regard to their relationship with the Welsh language, which is one problem that undermines its use. It would put flexibility in the proposed Measure and would mean that standards would automatically develop to reflect technological developments and substantial changes to the way in which services are provided to the public.⁸⁸

Hefyd, mynegodd Gareth Jones ei bryderon bod diffyg cydbwysedd yn y Mesur arfaethedig mewn perthynas â hawliau i siaradwyr Cymraeg:

Ni allwn osgoi'r ffaith ychwaith fod hawl gan gyrff a mudiadau grymus i apelio, ac i wneud hynny â phob math o gefnogaeth a sicrwydd ariannol. Fodd bynnag, hyd y gwelaf, nid yw'r un hawl yn bodoli o ran yr unigolyn, ac mae'r ymddiriedaeth i gyd yn nwylo'r comisiynydd. Mae'n bosibl i'r gorau fetu weithiau, a gallai'r comisiynydd gael pethau yn anghywir. Er tegwch â hawliau dynol, dylid cael rhyw fath o system wrth gefn sy'n caniatáu i'r unigolyn wneud apêl bellach.⁸⁹

Dywedodd Jenny Randerson yn byddai datganiad sylfaenol o hawliau yn gwneud llawer i gryfhau'r Mesur arfaethedig⁹⁰, yn enwedig gan bod y Pwyllgor wedi gwrthod gwelliannau eraill a oedd wedi'u paratoi er mwyn cryfhau hawliau'r unigolyn mewn ffyrdd amrywiol yn ystod y trafodion Cyfnod 2.

Fel ymateb i'r drafodaeth, dywedodd y Gweinidog:

Nid yw'n wir dweud nad oes cyfeiriad at hawliau, gan ei fod yn y disgrifiad hir o'r Mesur arfaethedig. Yn Rhan 1(2) o'r Mesur arfaethedig yr ydym yn cyfeirio at y dyletswyddau ar y cyrff, sydd wedyn yn troi'n hawliau i'r unigolyn, a'r hawliau hynny yn cael eu cefnogi gan y comisiynydd a drwy ddeddfwriaeth. Felly, yr ydym wedi symud yn eithaf pell i ddatgan fod hawliau defnyddwyr yn dod yn rhan o ddeddfwriaeth Cymru.⁹¹

Mynegodd y Gweinidog hefyd fwriad y Llywodraeth o gyflwyno cynigion yn y dyfodol mewn perthynas â hawl yr unigolyn i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y Comisiynydd:

Yr ydym yn gobethio dod â chynnig gerbron a fydd yn ymateb i sylwadau Gareth Jones yn gynharach yn y Cyfnod nesaf. Mae hwn yn fater sydd angen triniaeth ofalus iawn. Y peth olaf yr ydym eisiau ei wneud yw creu system lle bydd y comisiynydd wedi ei glymu i

⁸⁶ O dan Reol Sefydlog 23.35, dim ond Aelod o'r Pwyllgor a all gynnig gwelliant.

⁸⁷ Hysbysiad ynghylch Gwelliannau, cyflwynwyd ar 7 Hydref 2010, Gwelliant 177

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 362

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 372

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 374

⁹¹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 375

brosesau a fydd yn llyncu amser, adnoddau ac arian. Felly, wrth ddod â chynigion gerbron, bydd yn rhaid inni ofalu nad yw hynny'n ganlyniad anochel i'r cynigion hynny. Gobeithiaf y byddant yn ymateb i'r hyn yr oedd Paul yn ei ddweud yn gynharach, gan dderbyn y dadleuon a gyflwynwyd gan Leanne a Gareth yn y drafodaeth hon.⁹²

Ar ôl ateb y ddadl, nid oedd Leanne Wood am gynnal pleidlais ar y gwelliant ac roedd am ei dynnu yn ôl. Fodd bynnag, ni ellir tynnu gwelliant yn ôl heb ganiatâd y Pwyllgor (h.y. cytundeb unfrydol o dan Reol Sefydlog 23.77). Gofynnodd Jenny Randerson am bleidlais a gwrthodwyd y gwelliant⁹³

5. Cyfnod 3

Cynhelir y ddadl Cyfnod 3, pan gaiff holl Aelodau'r Cynulliad gyfle pellach i drafod y gwelliannau manwl i'r Mesur arfaethedig a phleidleisio arnynt yn y Cyfarfod Llawn, ddydd Mawrth, 30 Tachwedd.

Gall Aelodau'r Cynulliad gyflwyno gwelliannau drwy'r Swyddfa Ddeddfwriaeth. Ni fydd yn bosibl cyflwyno gwelliannau ar ôl 18.00, ddydd Mawrth, 23 Tachwedd.

⁹² Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, 21 Hydref, Paragraff 377

⁹³ O dan Reol Sefydlog 23.35 dim ond Aelodau'r Pwyllgor a gaiff bleidleisio felly ni gafodd Leanne Wood ganiatâd i bleidleisio.